



10

GWOBRAU STAFF A MYFYRWYR: DENG MLYNEDD O DATHLU RHAGORIAETH

ABER *Newyddion*

Cafodd *Gwobrau Staff a Myfyrwyr UMAber yn Dathlu*, a oedd yn dathlu dengmlwyddiant eleni, eu cynnal ar-lein ar 6 Mai 2021.

Coronwyd yr **Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn Adran y Flwyddyn**, gydag enwebiadau'r myfyrwyr yn canmol rhagoriaeth academiaidd ac ymdrechion eithriadol yr adran yn ystod blwyddyn heriol, ond hefyd ei hymroddiad i les ei myfyrwyr drwy greu cymuned gefnogol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mae'r gwobrau, a drefnir gan Undeb Myfyrwyr Aberystwyth gyda chefnogaeth gan y Brifysgol, yn cynorthwyo arfer gorau drwy dynnu sylw at ragoriaeth addysgu a chydabod cyfraniadau staff a myfyrwyr at y profiad o fod yn fyfyrwr.

Llongyfarchiadau i enillwyr gwobrau a gyhoeddwyd ar y noson:

Darlithydd y Flwyddyn

Panna Karlinger, Mathemateg a'r Ysgol Addysg

Tiwtor Personol y Flwyddyn

Dr Susan Chapman, Yr Ysgol Addysg

Goruchwyliwr y Flwyddyn

Dr Simon Payne, Yr Adran Seicoleg

Aelod Staff Ategol/Gwasanaeth y Flwyddyn

Lorraine Spencer, Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd

Cynrychiolydd Academiaidd y Flwyddyn

Jake Christie, Yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

Athro Ôl-raddedig y Flwyddyn

Yuyao Wang, Ysgol Fusnes Aberystwyth

Mentor Myfyrwyr y Flwyddyn

Cat Oliver, Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

Aelod Staff sy'n Fyfyriwr y Flwyddyn

Tom Mumford, Yr Adran Gyfrifiadureg

Myfyrwr-Wirfoddolwr y Flwyddyn

Adam Burlingham, Adran y Gyfraith a Throsedd


Gwobr Categori Agored

Beth Wright, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear a Joel Adams, Yr Adran Gyfrifiadureg

Ceir manylion yr holl wobrau ar wefan UMAber:

[UMAbert yn Dathlu Staff a Myfyrwyr 2021](#)

4 Cynlluniau ar gyfer prosiect ynni adnewyddadwy sylweddol



5 Gwobr CaisDyfeisio 2021



7 Campws sy'n Croesawu Draenogod



8 Sylw i... GO Wales



16 Staff y Ganolfan Chwaraeon yn rhagori mewn hyfforddiant



Cyhoeddir *Newyddion* ABER gan y Tîm Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, Prifysgol Aberystwyth.
Ffôn: 01970 622578
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Dyrchafiadau Academaidd 2020-21

Llongyfarchion i aelodau canlynol y staff academaidd a ddyrchafwyd yn dilyn cwblhau proses Ddyrchafu Academaidd 2020-21:

Mae'r canlynol wedi eu dyrchafu yn Athro:



• Yr Athro Hazel Davey, IBERS



• Yr Athro Sarah Davies, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear



• Yr Athro Mariecia Fraser, IBERS



• Yr Athro Joe Gallagher, IBERS



• Yr Athro Gareth Griffith, IBERS



• Yr Athro Andy Mitchell, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear



• Yr Athro Bernie Tiddeman, Cyfrifiadureg

Mae'r canlynol wedi eu dyrchafu i swydd Darlennydd:

- Dr Arwyn Edwards, IBERS
- Dr Elizabeth New, Hanes a Hanes Cymru
- Dr Olaoluwa Olusanya, Cyfraith a Throsedddeg
- Dr David Wilcockson, IBERS
- Dr Sarah Wydall, Cyfraith a Throsedddeg

Dyrchafwyd i swydd Uwch Gymrawd Ymchwil:

- Dr Kerrie Farrar, IBERS

Mae'r canlynol wedi eu dyrchafu i swydd Uwch Ddarlithydd:

- Yr Athro Matthew Jarvis, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
- Dr Andy Hardy, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
- Dr Huw Lewis, Gwleidyddiaeth Ryngwladol
- Dr Kim Knowles, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
- Dr Pip Nicholas-Davies, IBERS
- Dr Wyn Morris, Ysgol Fusnes Aberystwyth
- Dr Rhianedd Jewell, Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd
- Dr Tom Holt, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
- Dr Stephen Atherton, Yr Ysgol Addysg
- Dr Christine Zarges, Cyfrifiadureg

Colofn yr Is-Ganghellor

Hoffwn ddechrau trwy fynegi unwaith eto fy ngwerthfawrogiad ac edmygedd am y ffordd mae pawb wedi dod at ei gilydd a chydweithio dros y pedwar mis ar ddeg a aeth heibio. Yn yr amgylchiadau cwbl eithriadol y bu'n rhaid i ni weithio ynddyn nhw, mae cydweithwyr o bob rhan o'r Brifysgol wedi wynebu'r anawsterau ac ansicrwydd gyda phenderfyniad a dycnwch er mwyn parhau i ddarparu profiad myfyrwyr i ymfalchïo ynddo yn Aberystwyth.

Yn gynharach yn y mis bu'n bleser gwirioneddol i glywed rhai o'r enwebiadau ysbrydoledig am Wobrau Staff a Myfyrwyr UMAber. Mae a wnelo cyfran sylweddol o'r hyn sy'n gwneud Aber yn lle mor wych i weithio a dysgu ynddo â'r bartneriaeth rhwng staff a myfyrwyr, ac mae'r gwobrau blynyddol yn gyfle ardderchog i ddathlu a gwerthfawrogi unigolion ac adrannau eithriadol. Mae llais y myfyrwyr yn bwysicach nag erioed, ac rwyf wedi gwerthfawrogi'r trafod adeiladol a gawsom â chorff y myfyrwyr trwy gydol y flwyddyn, trafodaethau sydd wedi ein cynorthwyo i gynnal a chadw safon uchel profiad ein myfyrwyr.

Wrth i ni edrych yn ein blaenau at flwyddyn academaidd 2021-22, rwy'n sylweddoli nad ydyn ni'n glir hyd yn hyn ynglŷn â'r ffordd i symud ymlaen. Rydym yn benderfynol o gadw'r elfennau gorau a ddeilliiodd o gyfnod COVID-19, ond hefyd i ddod nôl ag elfennau gorau'r hyn a gollwyd, gan gynnwys dod â'n staff nôl i'r campws. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n pwyso a mesur gwahanol ddulliau gwaith a'r disgwyl yw y bydd mwy o staff yn gweithio o gartref - gwyddom y bydd rhai cydweithwyr yn croesawu hyn, ac eraill na fyddant.

Mae eich barn yn hynod bwysig i ni, a'r arolwg staff, *Dweud eich dweud*, a gaiff ei lansio yn fuan, fydd eich cyfle i roi gwybod i mi a'r tîm gweithredol beth yw eich teimladau ynglŷn â gweithio yma. Trwy rannu eich barn yn onest, byddwch yn ein cynorthwyo i ddeall yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn dda a'r hyn y gallwn ei wneud i wella, felly gofynnaf ichi gymryd rhan yn y broses hon er mwyn i ni gael detholiad cynrychioliadol o farn aelodau staff.

Yn ariannol, rydyn ni'n dal ar y llwybr tuag at wella, er y bydd y flwyddyn nesaf yn un heriol a bydd rhaid cadw rheolaeth ofalus ar wariant o hyd. Ar hyn o bryd mae ceisiadau am swyddi newydd a chyllid refeniw arall ddeng gwaith yn fwy na'r hyn sydd ar gael, a'r ceisiadau am ddatblygiad cyfalaf (yr ystâd a thechnoleg gwybodaeth) dros ddwywaith yn fwy na'r cyllid sydd ar gael.

Yn ogystal â hyn mae cryn dipyn i fod yn gadarnhaol yn ei gylich. Roeddwn wrth fy modd yn ddiweddar i allu cyhoeddi enwau aelodau staff a gafodd eu dyrchafu'n rhan o drefn Dyrchafiadau Academaidd 2020-21. Fel y gwyddoch, oedwyd y drefn hon wrth i ni fynd i'r afael â'r arbedion angenrheidiol o dan y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, ac mae'n bleser go iawn i fod mewn sefyllfa unwaith eto i wobrwyo staff academaidd yn y modd hwn.



Rydym yn rhagweld cynnydd yn niferoedd myfyrwyr ym mis Medi, er y bydd y drydedd flwyddyn yn llai na'r arfer. Er i ni weld gostyngiad mawr yn nifer y ceisiadau o Ewrop, mae'r cynnydd yn y ceisiadau o Gymru a gweddill y Deyrnas Gyfunol yn fwy na gwneud iawn am hynny. Ar ben hynny, rydym wedi gweld cynnydd da mewn ceisiadau a derbyniadau gan ymgeiswyr rhyngwladol; ond er bod y rhain yn arwydd o ehangu i'w groesawu mewn maes a allai fod yn un o dwf i'r Brifysgol, y maent yn anffodus yn llwyr ddbynol ar y pandemig ac a fydd cyfyngiadau teithio yn caniatáu i'r myfyrwyr hynny ddod i'r wlad.

Gwyddom fod nifer o gyfleoedd cyllido a gobeithion o dwf yn yr arfaeth. Cafwyd cynnydd yng nghyllideb graidd ymchwil UKRI ac fe felly bydd cyllid ychwanegol ar gael i ymchwil, ac mae cynnydd hefyd i'w gael mewn adnoddau ar gyfer arloesi. Mae posiblwydd y gellir manteisio ar arian Horizon i roi hwb i gydweithrediadau ac ymchwil arloesol, a phosiblwydd o gael arian o 'gronfa codi'r gwastad' i brosiectau adfywio yng nghanolbarth Cymru.

Mae tyfu ymchwil yn cynnig cyfleoedd allweddol i'r Brifysgol dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n gyffrous gweld nifer o ddatblygiadau ymchwil ac arloesi sylweddol yn cael eu cwblhau - Labordai Ymchwil Sêr Cymru ac adnoddau cwbl gyfoes Canolfan a Labordai Milfeddygol 1 - bydd y rhain yn hwb i'n gallu ymchwil a datblygu yn ogystal â'r potensial sydd gennym i ddenu buddsoddiadau a chydweithrediadau newydd.

Ar ôl yr holl sôn am edrych i'r dyfodol, rwy'n terfynu trwy ddweud fy mod yn edrych ymlaen yn arw at y dyddiau y byddaf yn gallu gweld mwy ohonoch wyneb yn wyneb.

Yr Athro Elizabeth Treasure
Is-Ganghellor

Taith lwyddiannus i weld diffyg ar yr haul

Pan deithiodd tîm o wyddonwyr o grŵp Ffiseg Cysawd yr Haul Dr Huw Morgan i'r Ariannin i arsylwi'r diffyg llawn ar yr haul ar 14 Rhagfyr 2020, ychydig a wydden nhw y byddent yn un o'r unig dimau gwyddonol yn y byd i arsylwi'r diffyg yn llwyddiannus.

Ar ddiwrnod y diffyg - digwyddiad prin pan fydd y lleud yn pasio'n uniongyrchol rhwng yr Haul a'r Ddaear - roedd llawer o'r llwybr crynswth ar draws Chile a'r Ariannin dan gwmwl.

Fodd bynnag, ar ôl misoedd o baratoi, brwdfrydedd ac ymroddiad i'r prosiect, ni lwyddodd y tywydd i ddigalonnir tîm oedd yn cynnwys y myfyrwyr PhD Gabriel Muro, Brad Ramsey a Kaine Bunting.


Tra bo'r glaw a chyfyngiadau teithio'n peri problemau i dimau eraill, daeth y tîm o Aberystwyth o hyd i ffenest o awyr glir yn Nhalaiith Neuquén yn yr Ariannin.

Gydag offer optegol wedi'i adeiladu'n gelfydd gan Dr Matt Gunn, gyda chlodadwyedd yn flaenoriaeth, a meddalwedd i redeg yr offerynnau wedi'i lunio a'i brofi gan y myfyrwr PhD o'r Adran Cyfrifiadureg, Tom Fearn, roedd y tîm yn gallu gyrru'n gynnar yn y bore a gosod popeth yn ei le yn gyflym mewn man delfrydol, lle cawsant brofiad diguro o'r digwyddiad solar.

Bydd canlyniadau'r daith yn darparu gwybodaeth hollbwysig am dymheredd, dwysedd, cyflymder a dosbarthiad plasma yn y corona solar isel, y rhan ble mae stormydd solar yn datblygu.

Diffyg llawn ar yr haul yw'r unig gyfle i wneud mesuriadau golau gweladwy manwl yn y rhan hon o'r atmosffer solar gan helpu gwyddonwyr i baratoi ar gyfer digwyddiadau mawr aflonyddgar sydd i'w gweld tua unwaith pob can mlynedd.

Gwyllo fideo'r tim o'r diffyg, wedi'i gyflymu



Chwith i'r dde: Myfyrwyr PhD Kaine Bunting, Gabriel Muro a Bradley Ramsey

Cynlluniau ar gyfer prosiect ynni adnewyddadwy sylweddol

Mae'r Brifysgol yn bwriadu gosod paneli solar o'r radd flaenaf ar safle ger Fferm Penglais, ac felly'n cymryd cam sylweddol tuag at ei nod uchelgeisiol o fod yn garbon-niwtral erbyn 2030.


Pan fyddant ar waith bydd y paneli solar ffotofoltaidd yn cynhyrchu tua 25% o anghenion trydan blyneddol Campws Penglais, sy'n cyfateb i'r ynni a ddefnyddir gan fwy na 500 o gartrefi. Mi fydd hyn, yn ei dro, yn arwain at arbed 550 tonnell o garbon bob blwyddyn.

Bydd y safle 4 hectar, ar dir y mae'r Brifysgol eisoes yn berchen arno, yn

costio ychydig llai na £2.5m ac yn creu arbedion ynni blyneddol gwerth mwy na £300k y flwyddyn. Dros oes y paneli, disgwylir y bydd y Brifysgol yn arbed bron i £18m mewn costau trydan.

Os ceir caniatâd cynllunio, y bwriad yw mynd ati â'r gwaith o osod y paneli solar o'r hydref eleni ymlaen

Llun gan artist o ddatblygiad solar Prifysgol Aberystwyth, gan edrych tua'r dwyrain



Gwobr CaisDyfeisio 2021

Syniad gan Karl Swanepoel, sy'n fyfyrwr Cyfrifiadureg ar ei flwyddyn olaf, aeth â bryd y beirniaid eleni yng nghystadleuaeth CaisDyfeisio Prifysgol Aberystwyth, gan ennill buddsoddiad gwerth £13,000.

Cynhelir y gystadleuaeth CaisDyfeisio bob blwyddyn ac fe'i noddir gan gyfraniadau gan gyn-fyfyrwyr drwy Gronfa Aber, ac fe'i trefnir gan Wasanaeth Gyrfaedd y Brifysgol. Eleni daeth cystadleuwyr y rownd derfynol o ystod eang o ddisgyblaethau academaidd, gan gynnig syniadau a amrywiodd o wellt yfed a wnaed o wair, i baent inswleiddio thermol.

Syniad busnes buddugol Karl yw gwefan/ap o'r enw Topwork, a fydd ynparu gweithwyr medrus sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain â busnesau bach newydd sy'n chwilio am wasanaethau digidol megis dylunio graffeg, ysgrifennu, rhaglennu a'r cyfryngau.

Ar y cyd â chael £10,000 i fuddsoddi mewn cyfarpar, adnoddau neu wasanaethau proffesiynol er mwyn gwireddu ei syniad busnes, llwyddodd Karl hefyd i gipio gwobr ar wahân sy'n werth £3,000, a noddir gan *Engineers in Business*, ar gyfer cynnig buddugol gan fyfyrwr neu dimau sy'n astudio Cyfrifiadureg, Mathemateg a Ffiseg.

Hefyd, yn rhan o'r wobwr i'r gystadleuaeth eleni, fe gynigiwyd lle mewn swyddfa am flwyddyn, mentora a hyfforddiant i baratoi at fuddsoddiad, a ddarperir gan ArloesiAber, a gynigir am y cais gorau o sectorau'r bio-wyddorau, y gwyddorau bywyd ac amaethyddiaeth. Dyfarnwyd y wobwr hon i'r cwmni te moesegol arloesol, Eisa Tea Co, sef syniad busnes y fyfyrwraig Seicoleg, Emily Knipe ac Amy Aed, a raddiodd mewn Saesneg.

Dyfarnwyd y wobwr derfynol, sef gwobr GRAaIN, werth £500, ar gyfer Busnes Cefn Gwlad, i wefan ac ap sy'n helpu beicwyr ar daith i ddod o hyd i lety addas. Dyma syniad busnes y myfyrwr Busnes Thomas Lancaster ac Emily Stratten, a raddiodd mewn Daearyddiaeth. Mae Ride Dyfi (www.ridedyfi.co.uk) yn dod o hyd i lety ym Mro Ddyfi ac Eryri sy'n addas yn benodol i feicwyr mynydd, gyda'r nod o ddatblygu i fod yn brif gyrchfan i feicwyr mynydd sy'n beicio yn yr ardal ac yn chwilio am wybodaeth amdani.

I gael rhagor o wybodaeth am raglen y Brifysgol o ddigwyddiadau sy'n cefnogi gweithgarwch menter busnes ymhlith ei myfyrwyr, ei graddedigion a'i staff, ewch i [dudalen we AberPreneurs](#)



Karl Swanepoel



Chwilio'r rhyngwrld er mwyn ailgoedwigo'r byd

Ym mis Mawrth 2020, gosododd y Brifysgol Ecosia yn beiriant chwilio diofyn ar orsafoedd gwaith myfyrwyr ar draws y campws.

Mae Ecosia yn wahanol i beiriannau chwilio eraill gan ei fod yn defnyddio ei reffeniw hysbysebu i blannu coed ar draws y byd.

Mae'r cwmni wedi ymrwmo i blannu coeden am bob 45 chwiliad rhyngwrld a wneir.

Gyda thros 15 miliwn o ddefnyddwyr ar draws y byd bellach, mae Ecosia eisoes wedi plannu dros 125 miliwn o goed mewn rhannau o'r byd sydd eu hangen fwyaf; gan ddod â budd i bobl, yr amgylchedd ac economïau lleol.

Sut gallwch chi helpu

Er mwyn cyfrannu at y nifer o goed mae'r Brifysgol yn eu plannu, gall staff a myfyrwyr osod Ecosia yn beiriant chwilio

diofyn ar ddyfeisiau personol a rhai sy'n eiddo i'r Brifysgol drwy ddilyn y cyfarwyddiadau syml sydd i'w gweld yma:


<https://ecosia.co/AberystwythUniversity>.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am brosiectau plannu coed Ecosia ewch i blog.ecosia.org

Cwestiynau cyffredin <https://ecosia.zendesk.com/hc/en-us>





Gwobr Cwrs Eithriadol 2020-21

Mae'r Brifysgol wedi cydnabod defnydd arloesol o dechnoleg mewn dysgu ac addysgu gyda chyflwyno ei Gwobr Cwrs Eithriadol flynyddol.

Caiff y wobwr ei goruchwyllo gan yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu, ac fe'i cynlluniwyd i gydnabod yr arferion gorau a'r defnydd gorau o Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol, Blackboard.

Asesir y wobwr ar draws 4 maes: Cynllun y Cwrs, Rhyngweithio a Chydweithio, Asesu, a Chymorth i Ddysgwyr, a disgwylir i'r ymgeiswyr amlinellu eu harferion addysgu arloesol.

Enillydd y wobwr eleni yw Dr Hanna Binks o'r Adran Seicoleg am y modiwl *Introduction to Research Methods in Psychology*.

Cymeradwyodd y panel y modiwl hwn oherwydd cynllun arloesol ei ddull asesu a'r gefnogaeth, y deunyddiau dysgu clir a drefnwyd yn rhesymegol, ac am gynnig amryw ffyrdd i fyfyrwyr gael bod yn rhan o'r gweithgareddau dysgu.

Ar ôl ennill y wobwr, dywedodd Dr Binks: "Ar ôl blwyddyn anodd, roedd yn braf cael cydnabyddiaeth am y gwaith caled aeth i mewn i'r modiwl. Mae *Research Methods in Psychology* yn fodiwl craidd dwyieithog mawr gan Gymdeithas Seicolegol Prydain, ond yn aml nid dyma hoff fodiwl y myfyrwyr a gall fod yn eithaf brawychus. Mae llawer o'n myfyrwyr yn cyrraedd

gyda rhagdybiaethau am eu gallu gydag ystadegau, felly mae'n bwysig fod cynnwys y modiwl yn hygyrch ac y hawdd i'r holl fyfyrwyr ei drin. Er mwyn pwysleisio pam fod *Research Methods* yn bwysig, rwy'n ceisio cysylltu'r cynnwys â'i ddefnydd, a defnyddio'r amrywiaeth o wahanol aseiniadau i ddangos y ffyrdd y gellir cyfleu ymchwil."

Yn ogystal â'r enillydd, cafodd pedwar modiwl arall wobwr canmoliaeth uchel: Dr Martine Garland (Ysgol Fusnes Aberystwyth) am y modiwl *Marketing Management*; Dr Rhianedd Jewell (Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd) am y modiwl *Trafod y Byd Cyfoes trwy'r Gymraeg*; Prysor Mason Davies (Ysgol Addysg) am y modiwl *Children's Rights*; a Mary Jacob (Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu) am y modiwl *Action Research and Reflective Practice in HE*.

Mae'r arferion yn y modiwlau hyn yn dangos y defnydd gorau o dechnoleg i wella dysgu'r myfyrwyr, cynnwys myfyrwyr mewn gweithgareddau ystyrion a meithrin cymuned ddysgu, a phontio at fwy o addysgu ar-lein mewn ymateb i'r pandemig.

Nawfed Gynhadledd Flynyddol Dysgu ac Addysgu

Bydd y Brifysgol yn cynnal ei nawfed Gynhadledd Dysgu ac Addysgu Flynyddol ar-lein rhwng 30 Mehefin a 2 Gorffennaf.

Trefnir y gynhadledd gan yr Uned Gwella Dysgu ac Addysgu, a thema eleni yw *Byrfyfyrto â Chyfyngiadau: Ail-lunio Cymuned Ddysgu mewn Cyfnod o Newid*.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn her i'r Brifysgol gyfan, ac mae staff wedi addasu eu cwricwla i addysgu mewn nifer o ddulliau gwahanol. Nod thema'r gynhadledd eleni yw myfyrto a dathlu'r datrysiadau creadigol ac arloesol sydd wedi arwain at botensial newydd mewn addysgu addysg uwch.

Bydd y gynhadledd yn croesawu siaradwyr allanol i arwain gweithdai a chyflwyniadau dros dri diwrnod. Dr Chrissi Nerantzi, sy'n arloesi gydag

addysgeg ar-lein a hyblyg o Brifysgol Fetropolitan Manceinion, fydd yn agor y gynhadledd. Bydd prif ddarlith Chrissi yn ymwneud â syniadau o gysylltedd, pŵer creadigrwydd ac adeiladu cymuned o fewn cwricwla. Bydd Andy MacGregor o JISC hefyd yn ymuno â ni i siarad am yr hyn sydd ar y gweill ar gyfer cynllunio asesu yn y dyfodol, yn ogystal â Joe Probert fydd yn cynnig cyngor i staff ar sut i wneud y defnydd gorau o bolau ar-lein yn eu haddysgu.

Yn ogystal â'r siaradwyr allanol, byddwn yn croesawu cyflwyniadau a gweithdai gan gydwethwyr ar draws y Brifysgol i arddangos a dathlu'r datrysiadau a'r

profiadau addysgu amrywiol ac arloesol sydd ar gael i'n myfyrwyr.

Roedd cynnal y gynhadledd ar-lein y llynedd yn llwyddiant ysgubol, gyda chynnydd yn y nifer oedd yn bresennol, a'r gobaith yw adeiladu ar hynny eleni. Wrth i ni agosáu at ein degfed gynhadledd y flwyddyn nesaf, gobeithio y byddwn yn ôl wyneb yn wyneb, ac rydym ni'n bwriadu gwneud rhywbeth arbennig iawn i adlewyrchu'r degawd diwethaf o gynhadleddau dysgu ac addysgu.

[Archebwch eich lle](#)

Campws sy'n Croesawu Draenogod

Ym mis Mawrth 2021, diolch i ymdrechion cydweithwyr yn y Tîm Tiroedd ynghyd ag Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd, cyflawnodd Prifysgol Aberystwyth achrediad efydd fel campws sy'n croesawu draenogod.



Mae nifer y draenogod yn y DU wedi haneru ers y flwyddyn 2000 ac erbyn hyn amcangyfrifir bod llai na miliwn ar ôl. Fe'i disgrifir fel bod mewn perygl o ddifodiant, a'r llynedd cafodd y draenog statws 'bregus' yn y Rhestr Goch o Famaliaid Prydain.

Rhaglen bioamrywiaeth genedlaethol i brifysgolion yw cynllun y Campws sy'n Croesawu Draenogod. Cyllidir y rhaglen gan Gymdeithas Cadwraeth Draenogod Cymru, a'i nod yw codi ymwybyddiaeth o ddraenogod a'u helpu i ffynnu ar dir y brifysgol.

Ochr yn ochr â nifer o weithgareddau eraill i wella bioamrywiaeth ystâd y Brifysgol, cynhaliwyd amrywiol weithgareddau yn canolbwyntio'n benodol ar helpu draenogod ar y campws:

- sefydlu gweithgor bioamrywiaeth mewnol i edrych ar statws draenogod ar draws ein hystâd ar hyn o bryd, a nodi camau y gallem eu cymryd i'w helpu
- gosod sticeri ar beiriannau Tîm y Tiroedd i dynnu sylw defnyddwyr at beryglon posibl i ddraenogod
- hyfforddiant i Dîm y Tiroedd ar yr hyn i'w wneud os ydyn nhw'n dod o hyd i ddraenog wedi'i anafu
- Tîm y Tiroedd yn mynychu gweithdy i ddysgu sut i adeiladu gorsafoedd arolygu i ni allu cofnodi gweithgareddau draenogod a chofnodi'r niferoedd a welir ar-lein
- Codi arian i Gymdeithas Cadwraeth Draenogod Prydain drwy flwch casglu yng Nghanolfan Celfyddydau'r Brifysgol
- codi ymwybyddiaeth staff a myfyrwyr drwy dafenni a [thudalen gwe](#)

Fel yr eglura Dr Neil Waghorn, Swyddog Cynladwyedd y Brifysgol: "Rydym ni'n lwcus i gael y fath ystod o foamrywiaeth yn yr ardal leol ac roedd hyn yn gyfle i helpu i godi ymwybyddiaeth o rai o'r problemau sydd gan ddraenogod, a rhai o'r ffyrdd y gall pobl helpu.

"Roedd Tîm y Tiroedd eisoes yn gwneud gwaith ardderchog yn helpu'r foamrywiaeth leol ac yn hynod o frwd i gymryd rhan yn y gweithdai a'r gweithgareddau, felly rwy'n hapus iawn i gael y dystysgrif hon, sy'n gydnabyddiaeth deilwng iddyn nhw.

"Yn yr un modd, diolch i waith Tîm y Tiroedd, a'r polisïau sydd ar waith, rydym ni eisoes ar y trywydd iawn i gyflawni'r dystysgrif arian, a byddwn yn ymgeisio amdani'n ddiweddarach eleni.

"Mae gennym ni nifer o gynigion o gymorth gan fyfyrwyr a staff eisoes, ond byddai croeso mawr i ragor o wirfoddolwyr i'n helpu ni i edrych am dystiolaeth o weithgaredd draenogod, ymgyrchoedd cyhoeddusurwydd a digwyddiadau codi arian!

"A dim ond dechrau yw'r draenogod. Os gwyddoch chi am gynlluniau bioamrywiaeth neu amgylcheddol y dylem ni, neu y gallem ni gymryd rhan ynddyn nhw, cysylltwch â ni - njw11@aber.ac.uk."

Aelodau o Dîm y Tiroedd yn dal twneli ôl troed draenogod mewn gweithdy i adeiladu gorsafoedd arolygu. Chwith i'r dde: Jo Wilkinson (Campws sy'n Croesawu Draenogod), Andrew Best (Technegydd Tiroedd), Dan Southgate (Technegydd Tiroedd), Connor Murphy (Technegydd Tiroedd), Paul Hancox (Technegydd Tiroedd), Martin Williams (Arweinydd Tîm y Tiroedd) a Stephen Short (Technegydd Tiroedd).



Sylw i... GO Wales

Mewn marchnad swyddi sy'n gynyddol gystadleuol, mae myfyrwyr a graddedigion yn awyddus i godi uwchlaw'r dorf. Un peth sy'n gallu rhoi hwb gwirioneddol i gais unrhyw ymgeisydd yw profiad gwaith perthnasol a gwahanol. Gall cydbwysu eich astudiaethau a dod o hyd i'r math o brofiad gwaith mae cyflogwyr yn chwilio amdano fod yn her. Yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae menter GO Wales a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yn helpu myfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau wrth chwilio am brofiad gwaith i fynd i'r afael â hyn, gan hybu eu cyfleoedd cyflogaeth a'u paratoi at fyd gwaith.



O'r chwith i'r dde - Christina Evans (Cynghorydd Datblygu), Lewis Richards (Rheolwr Strategol) and Lorraine Spencer (Cynghorydd Datblygu)

Mae GO Wales yn cynnig profiad gwaith pwrpasol wedi'i deilwra i fyfyrwyr, sy'n berthnasol i'w cynllun gradd a'u dyheadau gyrfa. Mae tîm GO Wales yn ceisio rhoi ystyriaeth i ymrwymiadau eraill myfyrwyr, gan sicrhau nad yw eu lleoliadau gwaith yn effeithio ar eu cynnydd academiaidd.

Fel mae'r Rheolwr Prosiect Lewis Richards yn awyddus i bwysleisio, mae cefnogaeth ei dîm i ystyriaethau ymarferol yn ffactor pwysig: "Mae GO Wales yn benderfynol o helpu myfyrwyr i gyflawni eu potensial, waeth beth fo unrhyw amgylchiadau anodd. Dyna pam rydym ni'n darparu cyllid ar gyfer llety a theithio (os oes angen) i hwyluso profiad gwaith ein myfyrwyr. Rhan o'n hethos yw ehangu cyfranogiad, a sicrhau bod profiad gwaith ar gael i bawb."

Rhaid i fyfyrwyr sy'n dymuno cymryd rhan fod dan 25 oed, mewn addysg llawn amser a bodloni o leiaf un o'r canlynol i fod yn gymwys:

- Bod ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith
- Dod o gefndir Du neu Leiafrifol Ethnig

- Bod â chyfrifoldebau gofalu neu ofal plant
- Bod mewn gofal neu wedi gadael gofal
- Dod o gymdogaeth sydd â chyfranogiad isel mewn addysg uwch
- Bod wedi'u dieithrio o'u teulu

Chewch chi ddim eiriolwr gwell dros y cynllun na Llywydd presennol Undeb Myfyrwyr Aberystwyth, Nate Pidcock. Cyn dod yn Llywydd yr Undeb, roedd Nate yn astudio Theatr a Mathemateg. Dywed iddo frwydro'n aml gyda diffyg hunanbarch ac nad oedd yn ymwybodol o'i ddyheadau gyrfa, ond bod GO Wales wedi ei helpu'n aruthrol. "Roedd fy lleoliad gwaith cyntaf mewn cwmni theatr lle cefais weithio'r tu ôl i'r llenni a deall y diwydiant yn well o lawer. Roedd fy ail leoliad yn Ysgol Penglais, yn arsylwi yn y dosbarth. Roedd y profiadau hyn yn hollbwysig gan iddyn nhw fireinio fy sgiliau a fy helpu i sicrhau lle ar gwrs PGDE ym Mhrifysgol Lerpwl John Moores. Cynyddodd fy hyder i'r graddau i fi sefyll a chael fy ethol yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr! Roedd Lewis yn gymeriad triw y gallwn droi ato mewn angen. Allaf i ddim diolch digon iddo!"



Cyflawni drwy Brofiad Gwaith

Achieve through Work Experience

Caiff Cynghorydd ei neilltuo i fyfyrwr cymwys fydd yn eu harwain drwy'r broses o benderfynu pa fath o brofiad gwaith maen nhw'n ei ddymuno, sut i baratoi a myfyrio'n feiriadol. Mae'r manteision yn ddeublyg; mae'r myfyrwr yn datblygu ac yn sicrhau sgiliau allweddol sy'n ddeniadol iawn i gyflogwr ac yn gallu dirnad eu dyheadau gyrfu. Mae'n wasanaeth cyfeillgar a hwylus, rhywbeth mae tîm GO Wales yn Aberystwyth wedi derbyn canmoliaeth amdano. Maen nhw'n arwain ac yn goruchwyllo myfyrwr drwy'r profiad gwaith, gan gynnig cyngor ac anogaeth. Os yw myfyrwr yn dioddef nerfau a phryder wrth ddechrau'r profiad gwaith, mae'r Cynghorydd yn hapus i fynd gyda nhw i'w helpu i ymgartrefu.

Mae Lorraine Spencer yn Gynghorydd Datblygu GO Wales. Mae hi wedi gweithio gyda myfyrwr di-rif, yn ceisio datblygu eu sgiliau wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer bywyd ar ôl y Brifysgol. "Mae GO Wales yn Aberystwyth yn gyson yn un o'r timau GO Wales sy'n perfformio orau o blith y sefydliadau addysg uwch", dywed Lorraine. "Rydym ni wedi cyflawni 96% o'n targed ar gyfer derbyn myfyrwr ar y cynllun, ac mae 84% o'n cyfranogwr wedi ymgymryd â phrofiad gwaith i helpu i leihau eu risg o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ar ôl graddio. Mae'r data yn dangos y gwahaniaeth mae'r cynllun yn ei wneud i gyfleoedd myfyrwr, felly mae angen clir am y fenter hon. Mae GO Wales yn ddiolchgar iawn am gydweithrediad a chefnogaeth barhaus adrannau eraill sydd wedi cynnig profiad gwaith."

Mae'r cynllun wedi cynnig cyfleoedd i fyfyrwr weithio gydag adrannau ar draws Prifysgol Aberystwyth a gydag amrywiaeth eang o sefydliadau eraill o'r BBC i'r cwmnïau adeiladu Morgan Sindall Ltd a Willmott Dixon, yn ogystal â sefydliadau fel Cyngor Sir Ceredigion, Llenyddiaeth Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae'r cyn-fyfyriwr Microbiolog Stanislav Kollarik bellach yn gweithio fel Cynorthwydd Labordy Meddygol yn lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n sicr bod y cyfleoedd a gafodd drwy GO Wales wedi ei helpu i sicrhau ei rôl bresennol. "Roeddwn i'n brwydro gorbryder a doeddwn i ddim yn gallu ymroi i wneud pethau. Gwnaeth fy Nghynghorydd, Lewis, wahaniaeth enfawr. Fe ysgwyddodd e elfennau brawychus trafod a threfniodd o hyd i leoliad gwaith, oedd yn golygu fy mod yn gallu canolbwyntio mwy ar fy astudiaethau a'r lleoliadau eu hunain. Yn y diwedd, sicrhodd dri chyfle gwych i fi. Roedd y lleoliad cyntaf gyda chwmni ymgynghori gofal iechyd lle cefais hyfforddiant mewn cyfathrebu meddygol ac roeddwn i'n gallu

cynyddu fy ngwybodaeth ddamcaniaethol o ficrobiolog. Yn yr ail leoliad cefais fynediad at labordy ymchwil a datblygu, ac roedd y trydydd mewn labordy meddygol, oedd yn gadael i fi gyferbynnu gweithrediadau'r ddau ddiwydiant. Helpodd hyn fi nid yn unig i bennu fy newis gyrfu yn y sector meddygol, ond roedd hefyd yn allweddol yn fy helpu i gryfhau fy nealltwriaeth o ficrobiolog ymarferol. Fel mae'n digwydd, roedd y lleoliadau gwaith hyn yn allweddol i sicrhau fy mod i'n cyrraedd ble'r wyf i heddiw."

Dyw'r pandemig ddim wedi atal cynnydd y tîm. Gyda chwmnïau'n troi oddi wrth weithio mewn swyddfeydd i'r byd rhithwir, mae wedi agor drysau newydd i fyfyrwr drwy GO Wales, gan sicrhau profiad gwaith rhithwir ar draws y DU.

Mae llawer o adrannau Prifysgol wedi cynnal profiad gwaith drwy'r cynllun eisoes, ac mae tîm GO Wales yn cadw golwg am gyfleoedd newydd i'w cynnig i fyfyrwr.

"Yn ddiweddar cawsom ni grŵp o fyfyrwr yn gweithio gyda ni yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd," dywed Lewis. "Eu tasg oedd gweld y ffordd orau i GO Wales gefnogi myfyrwr ar y sbectrwm awtistiaeth yn ystod y pandemig. Cynlluniodd y myfyrwr holiaduron, cynnal cyfweiliadau a dadansoddi'r canlyniadau i greu adroddiad a gaiff ei ddefnyddio fel model i dimau GO Wales ar draws Cymru sicrhau ein bod yn diwallu anghenion myfyrwr yn ystod y cyfnod anodd hwn."

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn croesawu cyfleoedd pellach i gydweithio gyda rhagor o adrannau'r Brifysgol i ddarparu profiad gwaith i'n myfyrwr. I gymryd rhan, eostiwch gocstaff@aber.ac.uk.

Mae GO Wales yn rhan o ddarpariaeth ehangach y Gwasanaeth Gyrfaoedd yma ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fe'i cyllidir drwy bartneriaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop yr Undeb Ewropeaidd.



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Munud yng nghwmni...

Cymrawd Cyfnewid Creadigol newydd y Brifysgol

Penodwyd yr Athro Matthew Jarvis o'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn ddiweddar yn Gymrawd Cyfnewid Creadigol newydd y Brifysgol. Aethom i'w holi am ei rôl newydd:

Fy rôl fel Cymrawd Cyfnewid Creadigol yw datblygu partneriaethau yn y diwydiannau creadigol. Caiff ei hariannu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac er ei bod yn rhan o Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, mae iddi gwmpas eang ar draws y Brifysgol.

Bydd y rôl yn cynnwys cefnogi ymarferwyr creadigol ac ymchwilwyr yn y dyniaethau i archwilio cyfleoedd ymchwil traws-ddisgyblaethol newydd a llunio ceisiadau am gyllid. Mae hefyd yn golygu meithrin cysylltiadau cyfoethog gyda chyrrff allanol allweddol, fel busnesau, cyrff trydydd sector, elusennau a grwpiau gwirfoddol, a allai gael budd o'n harbenigedd creadigol ac yn y dyniaethau.

Byddaf yn mynd ati i feithrin cydweithio gyda chyrrff lleol, gan fod helpu i gyfoethogi economi'r canolbarth yn hanfodol i'n heffaith fel Prifysgol. Ond mae ehangu *cyrhaeddiad* ein hymgysylltu creadigol hefyd yn hanfodol, felly byddaf yn ceisio creu cysylltiadau y tu hwnt i'n hardal leol hefyd.

Bydd cysylltiadau'n hanfodol bwysig o fewn y Brifysgol hefyd, ac mae potensial ymgysylltu traws-ddisgyblaethol a thraws-gyfadrannol hefyd yn rhywbeth rwyf i'n awyddus iawn i'w archwilio.

Beth yw nod hyn i gyd? Wel, bydd y prosiectau ymchwil a'r cysylltiadau y gobeithiwn eu sefydlu'n cynnig cyfleoedd cyfnewid gwybodaeth ac arloesi i fyfyrwyr a staff ar draws y Brifysgol, ac yn helpu i gryfhau a chyfoethogi diwydiannau creadigol a diwylliannol Cymru.

Yn y pen draw, fy nod yw sefydlu 'Rhwydwaith Cyfnewid Creadigol' traws-ddisgyblaethol fydd yn cefnogi'r rhyngweithio hynod o bwysig hwn dros y tymor hir, ac yn galluogi cyrrff allanol i gael budd o sbectwm eang o ymarferwyr creadigol yma yn y Brifysgol.

Mae ymrwymiad i'r celfyddydau creadigol wedi bod yn ganolog yn fy ngyrfa, boed drwy fy ymchwil fy hun neu ymwneud â diwydiannau creadigol Cymru, felly rwyf i'n llawn cyffro am fy rôl newydd.



Mae gennyf gysylltiad ers tro byd â diwydiannau creadigol a diwylliannol Cymru a bydd yn ffrainc rhoi'r profiad hwnnw a'r cysylltiadau hynny ar waith i gefnogi fy nghydweithwyr yn y Brifysgol.

Yn olaf, mae'n bwysig dweud fy mod yn awyddus i glywed gan ymchwilwyr y tu hwnt i'r meysydd creadigol neu'r dyniaethau, a allai fanteisio ar arbenigedd creadigol - o bosib fel ffordd i greu effaith yn eu gwaith ymchwil eu hunain. Hefyd os yw cydweithwyr yn gwybod am unrhyw gyrff allanol a fyddai am weithio gyda'n ymarferwyr ac ymchwilwyr creadigol, byddwn yn falch iawn i glywed ganddynt

- maj52@aber.ac.uk.

Canlyniadau etholiadau a 10 mlynedd o ddatlu llwyddiant

Am y tro cyntaf erioed cynhaliwyd wythnos bleidleisio Etholiadau'r Gwanwyn yn gyfan gwbl ddigidol ym mis Mawrth, ac fe bleidleisiodd 24% o fyfyrwyr Aber am y tîm nesaf o swyddogion a gwirfoddolwyr amser llawn i arwain yr Undeb a chynrychioli myfyrwyr Aber.

Llongyfarchiadau i'r holl ymgeiswyr a dymuniadau da i'r tîm o ddarpar swyddogion:

- Llywydd UM - Sabina O'Donoghue (Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol)
- Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA - Mared Edwards (Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd)
- Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr - Rachel Barwise (ThFfTh)
- Swyddog Materion Academaidd - Elizabeth Manners (Seicoleg)
- Swyddog Llesiant - Hannah Lunnon (Seicoleg)

Mae holl ganlyniadau Etholiadau'r Gwanwyn i'w gweld ar-lein.

Wrth ysgrifennu'r golofn hon mae wythnos UMAber yn Dathlu neuwydd ddod i ben, sef ein cyfle i gydnabod gwaith caled a chyflawniadau myfyrwyr a staff ymhob rhan o Brifysgol Aberystwyth.

Yr un peth â'r llynedd, cafodd y tair noson i ddatlu cymdeithasau, chwaraeon, a chyflawniadau staff a myfyrwyr eu cynnal yn ddigidol trwy ein gwefan a'n sianelau cyfryngau cymdeithasol, a pharti Zoom i'r rhai oedd awydd gwisgo lan i ddatlu'r achlysur.

Eleni, roedden ni'n dathlu degfed pen-blwydd y Gwobrau Staff a Myfyrwyr (y Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr fel y'u gelwid gynt), ac er mwyn nodi'r achlysur gwahodddwyd rhai o gyn Swyddogion Addysg a Materion Academaidd UMAber i edrych nôl ar rai o'r cyflawniadau a'r newidiadau mawr a



ddigwyddodd ledled y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr dros y ddegawd a aeth heibio. Os hoffech ddwyn nifer o atgofion i gof neu weld cymaint mae pethau wedi newid cymerwch olwg ar yr adran UMAber yn Dathlu ar ein gwefan.

Diolch i bawb a gyflwynodd enwebiad a llongyfarchion i fuddugwyr haeddiannol UMAber yn Dathlu. Daeth y noson i'w therfyn pan enillodd Clwb Rhedeg ac Athletau'r Harriers y teitl Clwb Chwaraeon y Flwyddyn, cymdeithas Gwirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth yn cael eu coronio'n Gymdeithas y Flwyddyn, a Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn cael ei dyfarnu'n Adran y Flwyddyn.

Mae holl ganlyniadau Cymdeithasau, Staff a Myfyrwyr a digwyddiadau Chwaraeon UMAber yn Dathlu i'w gweld ar wefan UMAber.

BYDDA'N RHAN O RYWBETH
CANLYNIADAU

#EtholiadauAber
LLONGYFARCHIADAU SWYDDOGION 2021-22

KEEZLE WACKA

Mae Newyddion Aber wedi gwahodd Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth y Brifysgol, Julie Archer, i gyfrannu erthyglau achlysurol yn cynnig cipolwg i ni ar rai o'r gwrthrychau rhyfeddol sydd wedi'u cadw yn Archif y Brifysgol. Yn yr ail yn y gyfres achlysurol, mae Julie, ynghyd â chydlynnydd Ymchwil Casgliadau'r Brifysgol, Cara Cullen, yn egluro cysyniad #AberYnGafael ac yn esbonio sut y gallwch chi gymryd rhan.

Pan fydd drysau'r Hen Goleg yn agor yn 2023, yn ogystal â chynnig lle i gynnal arddangosfeydd ymweliadol, bydd ei orielau newydd hefyd yn arddangos hanes y Brifysgol drwy eitemau o'n casgliadau. Wrth i ni feddwl am arddangos ein canrif a hanner gyntaf o fywyd prifysgol, hoffem glywed am y straeon a'r gwrthrychau sy'n bwysig i chi. Ac mae 'chi' yn golygu ein bod am gysylltu ag unrhyw un sydd â chysylltiad ag Aber; staff a myfyrwyr presennol a blaenorol; landlordiaid; masnachwyr fu'n gweithio ar ystâd y Brifysgol; trigolion lleol... mae'r rhestr yn ddiddiwedd. Gallai fod yn chi, neu rywun o genhedlaeth neu ddwy o'ch blaen. Fe wyddom fod gan ddigonedd o staff gysylltiadau teuluol, ffrindiau a chymdogion hanesyddol. Ac rydym ni'n galw'n benodol ar gymunedau amrywiol sy'n teimlo nad yw 'eu Aber nhw' yn cael ei hadlewyrchu ar hyn o bryd yn ein casgliadau felly rhannwch eich straeon gyda ni.

Am beth ydym ni'n chwilio?

Mae casgliadau arbennig amrywiol y Brifysgol eisoes yn cynnwys myrdd o wrthrychau hynod a rhyfeddol. Gyda'r awydd i weld y rhain ac eitemau eraill yn cael eu harddangos yn ein sbarduno, rydym ni'n defnyddio hwn fel cyfle i ddarganfod deunydd yn gysylltiedig â'r Brifysgol allan 'yn y gwyllt'.


Un peth mae pandemig Covid-19 wedi'i wneud yw rhoi amser sbâr i ni allu lloffa drwy hen focsys anghofedig yn y to, y garej neu dan y gwely. Hoffem ni glywed am eich darganfyddiadau, a gorau oll os ydyn nhw'n rhyfedd ac yn anghyffredin.

Rydym ni am glywed am unrhyw beth a phopeth, o wobrau Rag i ddillad chwaraeon; baneri protest i ffotograffau; ffilmiau cartref i recordiadau sain o ddarlithoedd. Efallai mai cofnodion a gwrthrychau 'corfforaethol' yw ein bara menyn (rydym ni'n edrych arnoch chi, gofnodion y corff llywodraethu a phrosbectysau) ond dydyn nhw byth yn heneiddio. Efallai eich bod yn meddwl bod gennym ni gopi o bob NewyddionAber, neu bob cynulliad graddau, ond efallai fod gennych chi un sy'n llenwi bwltch. Yn yr un modd, cawn ein *cyfareddu* gan yr anghorfforaethol, gan gyhoeddiadau a dillad ddyluniwyd gan fyfyrwyr (arweiniodd TCE Hall y ffordd gyda dillad ffraeth, fe ymddengys), gan gymdeithasau adrannol answyddogol, gan ymchwil staff, gan wrthrychau sy'n adlewyrchu ein hanesion mwy cudd.

Yn sicr fe wyddom fod rhai pethau'n bodoli ond does neb yn gwybod ymhle, a heb os ceir gwrthrychau a fu dan fygythiad yn sgil cau neu symud adrannau, ond a achubwyd gan staff neu bobl eraill graff. Os gwelsoch chi ein gweminar, byddwch wedi clywed ein bod yn hoffi'r syniad o amnest. Os oes gennych chi rywbeth yn eich meddiant, boed yn fwiadol neu'n ddamweiniol, dyma'ch cyfle i ollwng y baich, heb orfod ateb unrhyw gwestiynau (oni bai eich bod am rannu, ac os felly, rydym ni'n glustiau i gyd).

Byddai'n wych cael y cyfle i rannu rhai o'r gwrthrychau hyn i'w harddangos, neu, mewn rhai achosion, ofyn i chi ystyried eu rhoi i'r archif neu i gasgliadau ehangach y Brifysgol.

Os hoffech chi rannu rhywbeth gydag #AberYnGafael, bydd y ffurflen ar-lein ar agor tan ddydd Iau 20 Mai. Treuliwch funud neu ddau'n dweud wrthym ni pa wrthrychau sydd gennych chi, neu efallai i chi gofio eu gweld yn rhywle. Rydym ni hefyd yn gobeithio mapio bywyd y Brifysgol, felly rhannwch y llefydd hynny ar ystâd y Brifysgol, yn y dref, yn y wlad o gwmpas, sy'n golygu rhywbeth i chi.



A chofiwch rannu'r ddolen at y ffurflen gydag unrhyw un rydych chi'n credu y gallai helpu.

Rhag ofn eich bod wedi ei gollu, mae'r recordiad o'r gweminar diweddar ar #AberYnGafael a'r ymchwil hyd yma ar gael ar sianel [YouTube](#) y Brifysgol. Cynhelir sesiwn ddilydol yn canolbwyntio ar straeon a gwrthrychau o'r archif ddydd Mercher 19 Mai - [cofrestrwch yma](#)

Mae teitl y golofn wedi deillio o 'Floedd y Coleg', sy'n tarddu o 1905 pan benderfynwyd cael siant y gellid ei defnyddio i gefnogi myfyrwyr Aber mewn digwyddiadau chwaraeon rhyng-golegol. Yn dilyn cystadleuaeth yng Nghwad yr Hen Goleg, pan gyflwynwyd sawl bloedd bosibl gan eu cyfansoddwyr, cafodd y floedd fuddugol ei dewis. Cafodd yr ymadrodd 'Keezle Wacka', a ddefnyddir ym Mloedd y Coleg, ei ddewis yn ddiweddarach fel teitl ar gyfer cylchgrawn RAG Aberystwyth a gyhoeddwyd am sawl degawd, ac roedd hefyd yn deitl trawiadol ar gyfer y golofn hon.



Fforwm Ymchwil Prifysgol Aberystwyth

Yr Athro Bryn Hubbard yw cadeirydd Pwyllgor Llywio Fforwm Ymchwil Prifysgol Aberystwyth a sefydlwyd yn ddiweddar. Cawsom air gyda Bryn i glywed rhagor:

Beth yw nod Fforwm Ymchwil newydd Prifysgol Aberystwyth?

Nod y Fforwm Ymchwil yw hybu a chefnogi ymchwil ar draws y Brifysgol. Y brif ffordd

rydym ni'n gobeithio gwneud hyn yw drwy ddarparu fforwm i'r holl staff a myfyrwyr uwchraddedig sydd â diddordeb mewn ymchwil allu cysylltu'n effeithiol, gan rannu syniadau a gwybodaeth. Nid ydym yn rhagweld y bydd galwadau ar amser yr aelodau a gobeithiwn y bydd aelodaeth o'r Fforwm Ymchwil yn profi'n effeithlon ac yn effeithiol.

Pwy sy'n rhedeg y Fforwm Ymchwil?

Mae gan y Fforwm Ymchwil Bwyllgor Llywio (rhestr isod) ond ein bwriad yw y caiff y Fforwm ei redeg gan ymchwilwyr ar gyfer ymchwilwyr.

Pwy gaiff fod yn aelod o'r Fforwm Ymchwil?

Rydym ni am estyn allan mor eang â phosibl. Cynigir aelodaeth i holl staff a myfyrwyr ymchwil. Mae cyfranogi'n wirfoddol ac mae llais cyfartal gan bob aelod.

Beth fydd y Fforwm Ymchwil yn ei wneud?

Ar hyn o bryd, mae gan y Fforwm Ymchwil Bwyllgor Llywio a tîm ar safle Teams Microsoft. Mae gan y Tîm sianeli ar gyfer Gweithgareddau Ymchwil, Arbenigedd Ymchwil, Cyllid Ymchwil, a Chyhoeddi Ymchwil.

Ymhen amser, rydym yn rhagweld y gallai'r Fforwm Ymchwil fabwysiadu rôl eiriolaeth yn achlysurol drwy gyflwyno llais ar ran ymchwilwyr. Gallai'r Fforwm hefyd hysbysebu (neu drefnu a chynnal yn y pen draw) darlithoedd gwadd achlysurol gan siaradwyr mewnlol ac allanol, a chefnogi gweithgareddau achlysurol eraill fel gweithdai hyfforddi a digwyddiadau arddangos.

Beth yw'r cam nesaf?

Ymuno â'r tîm ac ymgysylltu!

I wneud hyn, yn Microsoft Teams dewiswch 'Join or create a team' a 'Join a team with a code', a defnyddiwch y cod canlynol: **dpze0tc**

Po fwyaf y caiff y Fforwm Ymchwil ei ddefnyddio, y mwyaf o ddylanwad fydd ganddo, felly anogwn unrhyw gyswllt, yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer gwelliannau.

Edrychwn ymlaen at ryngweithio yn y Tîm a datblygu Fforwm Ymchwil Prifysgol Aberystwyth ymhellach.

Pwyllgor Llywio Fforwm Ymchwil Prifysgol Aberystwyth

Dr Jennifer Deaville

Rheolwr Datblygu Ymchwil, RBI

Chris Henderson

PhD Blwyddyn Olaf, IBERS

Yr Athro Bryn Hubbard (Cadeirydd)

Cyfarwyddwr Ymchwil

Yr Athro Alison Kingston-Smith

Deon Cysylltiol - Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi, Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd

Katherine Parsons

PhD Blwyddyn Gyntaf 1, Seicoleg

Hannah Payne

Rheolwr REF a Monitro Ymchwil, RBI

Yr Athro Helen Roberts

Cyfarwyddwr Ymchwil Rhagoriaeth ac Effaith

Dr Sarah Wydall (Is-Gadeirydd)

Deon Cysylltiol - Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi, Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

Yr Athro Reyer Zwiggelaar

Deon Cysylltiol - Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi, Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol a Phennaeth Ysgol y Graddedigion

Ysgrifennu yn *The Conversation*

Wedi'i lansio yn 2013, mae *The Conversation* yn gadwfa annibynnol o newyddion a sylwebaeth, sy'n arddangos ymchwil o'r safon uchaf a gyflwynir gan brifysgolion heddiw.

Wrth gyfrannu yn *The Conversation*, mae erthyglau gan staff ac uwchraddedigion Prifysgol Aberystwyth wedi cael eu darllen dros 2 filiwn o weithiau, mewn dros 200 o wledydd. Mae eu herthyglau wedi cael eu hailgyhoeddi'n aml mewn ffynonellau cyfryngau eraill, gan gynnwys *The Independent*, *The Times*, *The Guardian* a *WalesOnline*.

Mae *The Conversation* yn pontio'r gagendor rhwng cynulleidfaoedd academiaidd a phoblogaidd, perygl cyffredin wrth hyrwyddo eich ymchwil academiaidd. Mae tîm o olygyddion ymroddgar. *The Conversation* yn gweithio'n agos â

chi o'r dechrau, gan adnabod ffyrdd o gyfleu eich neges mewn iaith syml a chryno.

Mae academyddion ac uwchraddedigion Aberystwyth sydd wedi ysgrifennu yn *The Conversation* wedi darganfod ei fod yn rhoi cyfle i ymgysylltu â, a thrafod materion cyfoes yn eu geiriau eu hunain - braint nad yw ffynonellau cyfryngau eraill yn ei rhoi i chi.

Barod i ysgrifennu? Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi trefnu gweithdai ysgrifennu a sesiynau briffio ar Zoom gyda golygydd yn *The Conversation* o 10yb-12yp ddydd Mercher 26 Mai a dydd Mercher 23 Mehefin. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn dod i un o'r sesiynau, [mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan](#).



"Roedd hi'n broses hynod o rwydd. Cefais gymorth golygyddol ardderchog, a alluogodd i mi ddatblygu'r darn i amlhau ei berthnasedd a'i effaith. Fy narn ar gyfer *The Conversation* yw'r erthygl sydd wedi cael ei darllen fwyaf o blith yr holl erthyglau yr wyf wedi eu hysgrifennu. Cafodd ei darganfod gan *Metro News* a *The Jakarta Post*.

"Er fy mod wedi cael cymorth a chyfarwyddyd golygyddol, gwnaeth fy narn yn *The Conversation* alluogi i mi roi cyfrif clir heb ei hidlo o ganlyniadau fy ymchwil. Mae *The Conversation* yn llwyfan ardderchog i estyn allan. Nid yn unig bod llawer o bobl yn ei ddarllen, ond mae ganddo gysylltiadau cryf â ffynonellau cyfryngau blaenllaw eraill sydd fel rheol yn tynnu ar ei gynnwys. Gwnaeth fy narn ysgogi cyfleoedd i ymgysylltu. Mae aelodau o'r cyhoedd wedi ymgysylltu â'm herthygl a chefais fy nghyfweld ar raglen ddarlledu yng Nghanada."

Yr Athro Mark Whitehead

Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau'r Ddaear



"Mae gweithio gyda *The Conversation* yn ddidrafferth iawn. Weithiau byddaf yn cyflwyno syniad iddynt, ond gan fy mod wedi ysgrifennu iddynt nifer o weithiau, bydd golygydd yn cysylltu â mi nawr pan fydd materion amserol yn codi sydd fewn fy maes arbenigol. Mae'r golygyddion yn dda iawn am ddo o hyd i luniau perthnasol, creu penawdau sy'n denu'r llygaid a sicrhau bod yr erthygl yn edrych yn goeth a phroffesiynol, ac mae'n rhaid i mi gymeradwyo popeth cyn y bydd y darn yn mynd yn fyw."

Dr Jenny Mathers

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol



Roedd ysgrifennu yn *The Conversation* yn gyfle gwych i rannu fy ngwaith ymchwil gyda chynulleidfia ehangach (nad ydynt o reidwydd yn academiaidd). Mae'r erthyglau yr wyf wedi'u hysgrifennu wedi ennyn ymatebion diddorol - ac ar brydiau mae sgwrs dros e-bost wedi dilyn! Mae'r golygyddion yr wyf wedi gweithio â hwy wedi bod yn gynorthwyol a chefnogol ac er eu bod wedi golygu rhywfaint ar y gwaith, roedd y cynnyrch gorffenedig a gyhoeddwyd bob amser yn fy ngeiriau a'm meddyliau fy hun."

Dr Jamie Medhurst

Yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu



THE CONVERSATION

Staff y Ganolfan Chwaraeon yn rhagori mewn hyfforddiant ar-lein yn ystod pandemig coronafeirws

Mae wedi bod yn wych croesawu ein haelodau yn ôl i'r Ganolfan Chwaraeon dros y pythefnos diwethaf ac i'ch cynorthwyo i ailgydio yn eich iechyd a lles. Hoffem ddiolch i bawb am eich cefnogaeth dros y deuddeg mis diwethaf; yn ystod y cyfnod hwn mae staff y Ganolfan Chwaraeon wedi bod yn brysur yn uwchsgilio a diweddarau eu hyfforddiant.

Doedd addasu gweithlu ymarferol i ddysgu ar-lein yn ystod pandemig ddim am fod yn hawdd, ond tra bo diwydiant hamdden a ffitrwydd y byd yn cael ei orfodi i gau ei ddrysau i gwsmeriaid, doedd staff y Ganolfan Chwaraeon ddim am orffwys ar eu rhwyfau a gwneud dim.

Penderfynodd llawer o'r staff craidd, oedd eisoes yn arddel meddylfryd 'corff prysur/meddwl prysur', fanteisio ar eu cyfle i ddatblygu drwy raglen gynhwysfawr o weithgareddau codi sgiliau a hyfforddiant gloywi.

Cwblhawyd modiwlau hyfforddiant craidd y Brifysgol fel Rhagfarn Ddiarwybod, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y Gweithle, yn gyflym, ac yna cafwyd hyfforddiant pellach ar becynnau Microsoft fel Excel, Publisher a PowerPoint, gan wella eu sgiliau ar-lein a chyfrifiadurol. Mynychwyd Gofal Cwsmeriaid, Rheoli Amser, Cyfathrebu Effeithiol a diplomâu mewn Asesu Iechyd Meddwl â brwdfrydedd, gan roi hyder i staff allu cefnogi a gwella profiad y cwsmer wrth ailagor.

Wrth i'r pandemig barhau ac i wyddoniaeth a dealltwriaeth o COVID 19 ddatblygu, dechreuodd cyrff llywodraethu cenedlaethol y diwydiant fel Cymdeithas Chwaraeon Cymru, UK Active a Cimpsa gyflwyno adnoddau ar-lein i'r sector chwaraeon a hamdden i'w helpu i baratoi ar gyfer ailagor, a chwblhaodd staff fodiwlau a fyddai'n eu helpu i gyflawni'r mesurau rheoli newydd ar gyfer ymarfer corff dan do ac awyr agored.

Dros yr wythnosau diwethaf, mae staff hefyd wedi cwblhau'r Dyfarniad Achub Bywyd Pwll Nofio newydd a addaswyd gan y Gymdeithas Frenhinol Er Achub Bywydau (RLSS), Cymorth Cyntaf Brys yn y Gweithle a hyfforddiant diffibrliwr allanol awtomataidd, gyda sylw arbennig i'r gweithdrefnau brys newydd ar gyfer achub bywyd a gweinyddu cymorth cyntaf.

Mae ein dysgwyr Cymraeg hefyd wedi cwblhau tystysgrifau Croeso Cymraeg Gwaith a Croeso 'Nôl Cymraeg Gwaith' felly cofiwch eu cyfarch â **'Bore da'**.



Cwblhawyd cyfanswm o dros 260 o dystysgrifau mewn modiwlau ar-lein, diplomâu a chyrtsiau yn ystod yr 8 mis bu ein staff ar ffyrlo.

Ar wahân i'r hyfforddiant, parhaodd ein tîm i weithio'n ddiflino y tu ôl i'r llenni i sicrhau bod ein cyfleusterau'n barod i'w hailagor ac rydym ni wedi gwneud popeth posibl i gynnal diogelwch cwsmeriaid a chydweithwyr i fodloni'r holl ganllawiau COVID-ddiogel.

Darren Hathaway
Pennaeth Chwaraeon a Thiroedd




Penodiadau

Croeso cynnes i gydweithwyr a ymunodd â'r Brifysgol yn y misoedd diwethaf, gan gynnwys:

SEFYDLIAD Y GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL A GWLEDIG

Mae **Dr Tiffany Lau** wedi ymuno ag IBERS fel cydymaith ymchwil ôl-ddoethurol yn gweithio ar brosiect Valusect Interreg, prosiect Ewropeaidd ar gyfer cryfhau cydweithio trawsenedlaethol a manteisio ar ymchwil ar bryfed fel adnoddau ar gyfer datblygu cynhyrchion bwyd (lled) orffenedig. Cwblhaodd Tiffany ei doethuriaeth mewn Gwyddor Bwyd a Maeth yn 2019 ym Mhrifysgol Reading, lle'r oedd ei phrosiect yn canolbwyntio ar roi gwerth ar wastraff bwyd - yn benodol ffyrdd o uwchgyrchu tywysennau corn. Ers hynny bu Tiffany yn gweithio mewn rôl cydymaith ymchwil ôl-ddoethurol ym Mhrifysgol Reading.



YSGOL GWYDDOR FILFEDDYGOL

Mae **Dr Sophie Regnault** wedi ymuno â'r Ysgol Gwyddor Filfeddygol fel Uwch-ddarlithydd mewn Gwyddor Filfeddygol (Anatomeg a Ffisioleg).

Cymhwysodd Sophie yn filfeddyg a bu'n gweithio gyda'r People's Dispensary for Sick Animals, cyn cyflawni doethuriaeth yn y Coleg Milfeddygol Brenhinol yn astudio biomecaneg esblygol gymharol. Ers hynny mae wedi gweithio fel cymrawd ymchwil ôl-ddoethurol



yn Amgueddfa Sŵleg Gymharol Harvard ac fel anatomegydd yn Ysgol Meddygaeth Filfeddygol Prifysgol Surrey.


ADRAN Y GYFRAITH A THROSEDDEG

Mae **Caroline Whitby** wedi ymuno fel darlithydd yn y gyfraith, gyda chyfrifoldeb am ddatblygu agweddau galwedigaethol ar weithgareddau'r adran. Graddiodd Caroline â gradd yn y gyfraith o Brifysgol Birmingham, a chymhwysodd ac ymarfer fel cyfreithiwr cyn gweithio ym maes rheoleiddio a hyfforddi cyfreithwyr, a chymwysterau.



ADRAN CYFRIFIADUREG

Mae **Dr Donya Yazdani** wedi ymuno â'r Brifysgol fel darlithydd mewn Cyfrifiadureg. Cyn hyn roedd yn ymchwilydd ôl-ddoethurol yng Ngrŵp Algorithmau Prifysgol Sheffield. Cyflawnodd ei doethuriaeth yn yr un adran yn 2020. Mae ei diddordebau ymchwil presennol yn cynnwys dadansoddi damcaniaethol o algorithmau esblygol, problemau optimeiddio dynamig, ac optimeiddio cyfuniadol.



Wythnos Roboteg Aberystwyth Aberystwyth Robotics Week Mehfin 19-25 June 2021

Mae cymaint i'w wneud a'i weld

- Labordy Traeth
- Gweithdai
- Gweithgareddau
- Crefftau

#WythnosRobotegAber

There's so much to do and see

- Beach Lab
- Workshops
- Activities
- Crafts

#AberRoboticsWeek

Am fwy o wybodaeth: / For more information:
roboticsweek.dcs.aber.ac.uk / roboticsweek@aber.ac.uk